

Ymwneud myfyrwyr â phrosesau cynllunio mynediad a ffioedd

Mae CCAUC yn croesawu ymwneud myfyrwyr ac Undebau Myfyrwyr ag amrywiaeth eang o drafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau i ddatblygu a gwella strwythurau a phrosesau sefydliadau.

Mae'r wybodaeth hon am gynllunio mynediad a ffioedd yn datgan ffyrdd i gyrrff myfyrwyr ac Undebau Myfyrwyr wneud cyfraniad arwyddocaol at y broses o gynllunio mynediad a ffioedd.

Beth yw cynlluniau mynediad a ffioedd?

Cyflwynwyd cynlluniau mynediad a ffioedd (cynlluniau) ar eu ffurf bresennol yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Maent yn datgan sut bydd sefydliadau'n gwario canran o incwm ffioedd hyfforddi i gefnogi cyfleoedd cyfartal ac i hybu addysg uwch. Oherwydd bod incwm ffioedd yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd hon mae'n bwysig bod myfyrwyr ac Undebau Myfyrwyr yn rhan o'r broses.

Mae ymwneud y myfyrwyr yn helpu i sicrhau bod y cynlluniau o fudd i fyfyrwyr y presennol a'r dyfodol, gan gynnwys myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner. Rydyn ni eisiau helpu myfyrwyr i ymwneud â chynllunio mynediad a ffioedd, er gwaethaf cymhlethdodau'r cylch cynllunio. Mae'r broses o ddatblygu, cymeradwyo, gweithredu a monitro cynllunio'n digwydd dros sawl blwyddyn academaidd.

Pam mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn bwysig?

Rhaid i sefydliadau fod â chynllun mynediad a ffioedd wedi'i gymeradwyo gan CCAUC i godi ffioedd hyfforddi ar fyfyrwyr llawn amser, israddedig a TAR (SAC)

cartref ac o'r UE. Mae llywodraeth Cymru eisiau i gynlluniau mynediad a ffioedd wneud cyfraniad arwyddocaol at ehangu mynediad i grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch.

Pa wybodaeth sydd mewn cynllun mynediad a ffioedd?

Mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- y **sefydliad**;
- **lefelau ffioedd**, gan gynnwys gwahanol ffioedd i'w codi am gyrsiau; a
- **grwpiau myfyrwyr a dangynrychiolir mewn addysg uwch**.

Hefyd maent yn gwneud amrywiaeth o ymrwymadau yng nghyswllt y canlynol:

- **gweithgareddau** sy'n denu ac yn cadw myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch;
- **cefnogaeth ariannol** i fyfyrwyr;
- swm yr **incwm o ffioedd** i'w fuddsoddi yn y gweithgareddau hyn;
- **ffioedd** cyrsiau;
- **targedau** i gefnogi cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch;
- **buddsoddi mewn targedau** sy'n cefnogi cyfleoedd cyfartal ac yn hybu addysg uwch; a
- sut bydd **cynlluniau'n** cael eu **cyflwyno a'u monitro**.

Ar ôl i CCAUC gymeradwyo'r cynlluniau bob blwyddyn, mae'r sefydliadau'n **cyhoeddi'r** wybodaeth yma ar eu **gwefan**, gan gynnwys: cymeradwyaeth eu cyrff llywodraethu i gynlluniau a gwybodaeth am lefelau ffioedd, incwm o ffioedd, buddsoddiad a gwariant cynlluniau mynediad a ffioedd, gwybodaeth am bartneriaethau a thargedau.

Beth yw cyngor Llywodraeth Cymru a CCAUC i sefydliadau am ymwneud myfyrwyr â'r broses?

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi cyfarwyddyd i CCAUC am gynllunio mynediad a ffioedd ac rydyn ni'n darparu cyfarwyddyd blynyddol i sefydliadau ar ddatblygu cynlluniau mynediad a ffioedd. Mae'r ddau gyfarwyddyd ar gael ar ein [gwefan](#) ni. Mae Llywodraeth Cymru a CCAUC yn disgwyl i sefydliadau ymgysylltu â'u myfyrwyr i

ddatblygu, monitro a gwerthuso eu cynlluniau. Mae CCAUC yn gofyn i sefydliadau gadarnhau sut maent yn gweithredu arfer da fel y nodir yn y dogfennau canlynol:

- yr egwyddorion yn [natganiad Wise Cymru ar bartneriaethau ar gyfer addysg uwch](#), sy'n datgan arfer da ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr;
- [Goresgyn y rhwystrau i gyfleoedd myfyrwyr a gweithredu cymdeithasol ieuenctid](#), sy'n darparu fframwaith a phe cyn adnoddau ar gyfer partneriaethau ac ymgysylltu â myfyrwyr;
- [Canllaw ar ddarparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr israddedig](#), sy'n cynghori sefydliadau ar ddarparu gwybodaeth sydd ar gael yn hwylus i ddarpar fyfyrwyr, i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau am astudiaethau addysg uwch.

Beth mae CCAUC yn ei wneud i helpu myfyrwyr i gymryd rhan?

Mae CCAUC yn gweithio'n agos ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru (NUSW) ac rydyn ni'n cyfarfod â hwy bob blwyddyn i drafod cynllunio mynediad a ffioedd. Hefyd rydyn ni'n cynnal gweithdai ac yn cyfrannu at ddigwyddiadau os yw NUSW yn meddwl y byddai hynny'n ddefnyddiol. Mae Llywydd NUSW yn arsylwr ar Gyngor CCAUC, sef y corff gan CCAUC sy'n gyfrifol, ymhlith pethau eraill, am gynllunio mynediad a ffioedd.

Sut gall myfyrwyr gyfrannu at gynllunio mynediad a ffioedd?

Mae'r **amserlenni** i CCAUC a sefydliadau lunio cynlluniau mynediad a ffioedd yn derfynol yn heriol bob blwyddyn. Mae'r cynlluniau'n cael eu llunio'n derfynol tua'r amser pan mae'r rhan fwyaf o Undebau Myfyrwyr yn newid swyddogion sabothol. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig i'r **sefydliadau a'r myfyrwyr gydweithio'n agos** i wneud yn siŵr bod y cynlluniau'n diwallu anghenion y myfyrwyr. Dyma rai ffyrdd i'r myfyrwyr gyfrannu:

- **Siarter Myfyrwyr a Chytundeb Perthynas:** Mae gan bob sefydliad a reoleiddir Siarter Myfyrwyr a Chytundeb Perthynas. Mae'r dogfennau hyn yn dangos pa mor bwysig yw **gwaith partneriaeth rhwng staff a myfyrwyr**, ac maent yn cael eu hadolygu ar y cyd, yn flynyddol, i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion y staff a'r myfyrwyr. Dylai'r dogfennau hyn fod yn sail i dulliau cydweithredol o weithio ar gynllunio mynediad a ffioedd.

- **y corff llywodraethu:** Mae cyrff llywodraethu'n **gyfrifol** am gynlluniau mynediad a ffioedd sefydliadau. **Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn aelodau o gyrrff llywodraethu**, sy'n galluogi'r myfyrwyr i chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu, adolygu a monitro'r cynlluniau.
- **gweithio gyda sefydliadau partner:** Mae gan sefydliadau drefniadau partneriaeth, er enghraifft, darpariaeth masnachfaint gyda sefydliadau, fel colegau addysg bellach. Dylai'r sefydliadau a'r myfyrwyr weithio gyda **chynrychiolwyr y myfyrwyr a'r sefydliadau partner** i sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli yn y cynlluniau mynediad a ffioedd.
- **cynrychiolwyr y myfyrwyr:** Yn aml mae gan gynrychiolwyr y myfyrwyr **wybodaeth ac arbenigedd** ar faterion sy'n berthnasol i gynllunio mynediad a ffioedd, fel blaenoriaethau ymgyrchu cyfredol, y galw am gefnogi myfyrwyr, gan gynnwys cefnogaeth ariannol, ac anghenion y myfyrwyr fel maent yn berthnasol i fyfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig, grwpiau a dangynrychiolir mewn AU a myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, mae cynrychiolwyr y myfyrwyr mewn sefyllfa dda i gyfrannu at gynllunio mynediad a ffioedd.
- **tystiolaeth:** Efallai bod gan fyfyrwyr dystiolaeth i helpu sefydliadau i adnabod grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch a **sut orau i ddarparu cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr neu wybodaeth, cyngor ac arweiniad ariannol**. Efallai bod gan fyfyrwyr dystiolaeth o ba mor fuddiol, neu fel arall, fu'r camau gweithredu i wella'r cadw ar fyfyrwyr a llwyddiant y myfyrwyr a beth mwy gellir ei wneud i gefnogi llwyddiant myfyrwyr.
- **ymgyrchoedd:** Gall ymgyrchoedd myfyrwyr ar lefel y DU, Cymru ac yn lleol fod yn sail i **amcanion, blaenoriaethau a thargedau'r** cynlluniau.
- **gosod targedau:** Mae sefydliadau'n gosod targedau yn eu cynlluniau i ddangos eu cynnydd disgwylidig. Gall myfyrwyr ac Undebau Myfyrwyr chwarae rhan bwysig mewn **cytuno ar dargedau**, gan sicrhau bod y targedau'n **uchelgeisiol** ac yn ystyried y buddsoddiad mynediad a ffioedd mewn categorïau o ddarpariaeth.
- **monitro:** Mae'n bwysig bod **myfyrwyr yn ymwneud â'r monitro** ar gynlluniau mynediad a ffioedd blaenorol, gan mai myfyrwyr sydd yn y sefyllfa orau i ystyried a yw amcanion a nodau'r cynlluniau wedi'u cyflawni.

Sut gellir hybu ymwybyddiaeth o gynlluniau mynediad a ffioedd?

Mae swyddogion cyrff myfyrwyr ac Undebau Myfyrwyr yn newid bob blwyddyn, felly mae'n **hanfodol** bod sefydliadau a myfyrwyr **yn sicrhau bod myfyrwyr newydd a phresennol yn deall y broses cynllunio mynediad a ffioedd ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf amdani**, gan gynnwys sut gallant gymryd rhan. Mae hyn yn hynod bwysig gan fod y cynlluniau'n cael eu cytuno, eu cyflwyno a'u monitro dros dair blynedd academaidd o leiaf. Gellir gwneud hyn drwy gyfrwng y canlynol, er enghraifft:

- **Undebau Myfyrwyr** gan gynnwys hyfforddiant ar ymwneud â chynllunio mynediad a ffioedd fel rhan o'u cyflwyniad i gynrychiolwyr myfyrwyr newydd a phresennol;
- **hyfforddiant neu ddigwyddiadau NUSW** ar gynllunio mynediad a ffioedd; a
- **diweddariadau trosglwyddo, gan gynnwys diweddariadau ysgrifenedig, gan gynrychiolwyr myfyrwyr sy'n gadael** ar ddulliau o gynllunio mynediad a ffioedd a'r blaenoriaethau yn eu sefydliadau.

Esiamplau o arfer da mewn cydweithredu rhwng sefydliadau a myfyrwyr

Mae'r broses cynllunio mynediad a ffioedd bresennol yn gymharol newydd felly bydd rhagor o wybodaeth am arfer da'n dod i'r amlwg gydag amser. Wrth gynllunio mynediad a ffioedd yn y dyfodol, **gallai sefydliadau a myfyrwyr gydweithio gyda'i gilydd** i godi ymwybyddiaeth o werth cyfraniadau myfyrwyr at y broses cynllunio mynediad a ffioedd. Dyma rai esiamplau o sut ddylai sefydliadau a myfyrwyr fod yn cydweithio:

- **gwella'r cydweithio rhwng myfyrwyr a staff** drwy greu Uned Ymgysylltu â Myfyrwyr i gasglu a rhannu llais y myfyrwyr, gan gynnwys fel mae hyn yn sail i gynllunio mynediad a ffioedd;
- sicrhau bod canlyniadau **arolygon myfyrwyr**, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, Arolwg Ymgysylltu'r DU, Arolygon Profiadau Ôl-raddedig a Addysgir (PTES) ac Ymchwil Ôl-raddedig (PRES), yn cael eu defnyddio wrth gynllunio mynediad a ffioedd;

- cynnal **sgyrsiau rheolaidd am gynllunio mynediad a ffioedd** rhwng cynrychiolwyr Undebau Myfyrwyr ac uwch dîm rheoli'r sefydliad;
- cynnwys **cynrychiolwyr y myfyrwyr ar uwch bwyllgorau** a grwpiau;
- cynnwys swyddogion Undebau Myfyrwyr wrth benderfynu sut ddylai'r sefydliad gefnogi **grwpiau a dangynrychiolir** mewn cynlluniau, a sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i ymwneud â **monitro ac adolygu'r** cynlluniau;
- gweithio gyda'r Undebau Myfyrwyr i gael **adborth o ansawdd da** fel sail i gynllunio a gwerthuso;
- **ymgorffori pwyllgor cyswllt myfyrwyr-staff** ym mhob ysgol/adran academaidd gyda chylch gwaith i ystyried cynllunio mynediad a ffioedd;
- cynnwys Undebau Myfyrwyr mewn **adolygiad blynyddol o gynnydd** ar ymgysylltu â myfyrwyr, gan gynnwys eu cyfraniad at gynllunio mynediad a ffioedd;
- darparu **adroddiad blynyddol i fyfyrwyr** ar sut defnyddiwyd buddsoddiad cynllun mynediad a ffioedd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Ydi sefydliadau'n cael gwneud newidiadau i gynlluniau mynediad a ffioedd ar ôl i CCAUC eu cymeradwyo?

Gall sefydliadau ofyn i CCAUC gytuno ar newidiadau i gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy. Mae CCAUC yn gofyn i sefydliadau **drafod unrhyw newidiadau arfaethedig gyda'r myfyrwyr**, gan gynnwys y rhai sy'n astudio mewn sefydliadau partner, yn gynnar yn y broses a chadarnhau eu bod wedi gwneud hynny.

Sut mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn cael eu monitro a'u gwerthuso?

Mae cyrff llywodraethu'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso cynlluniau mynediad a ffioedd. Maent yn cael cyngor gan bwyllgorau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr. Dylai'r pwyllgorau hyn gyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd a pherfformiad y cynlluniau mynediad a ffioedd. Efallai bod y cynlluniau wedi cael eu trafod a'u cytuno gyda chynrychiolwyr myfyrwyr nad ydynt yn y sefydliad bellach. Fodd bynnag, mae'r **myfyrwyr presennol mewn sefyllfa dda i ystyried a oedd y buddsoddiad yn ddigonol ac yn effeithiol.** Mae asesiad o'r fath yn darparu adborth gwerthfawr i

sefydliadau a dylai fod yn sail i ddatblygu cynlluniau yn y dyfodol.

Bob blwyddyn, yn **nhymor yr hydref** fel rheol, mae'n ofynnol i sefydliadau ddarparu i CCAUC **ddatganiad monitro blynyddol (DMB)** yn cadarnhau perfformiad a buddsoddiad eu cynllun mynediad a ffioedd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt. Mae'r DMB hwn yn cynnwys rhoi esboniad pan nad yw targedau wedi'u cyrraedd, a chadarnhau buddsoddiad mewn cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch, gan gynnwys cefnogi myfyrwyr. Mae CCAUC yn rhoi adborth i sefydliadau ar eu DMB ac yn argymhell bod y sefydliadau'n trafod eu **canlyniadau monitro ac adborth CCAUC gyda'r myfyrwyr**. Efallai mai hwn fydd y tro cyntaf i swyddogion neu gynrychiolwyr myfyrwyr ymwneud â phroses y cynllun mynediad a ffioedd. Mae'n **bwysig bod myfyrwyr yn rhan o'r broses hon**, oherwydd bydd deall y prosesau monitro a chanlyniadau'r cynlluniau blaenorol yn eu helpu i ddeall dulliau gweithredu a pherfformiad y sefydliad, yn ogystal â bod yn sail i'w cyfraniadau at gynlluniau newydd.

Rhaid i sefydliadau werthuso cynlluniau mynediad a ffioedd i asesu eu heffeithiolrwydd. Rhaid iddynt ddatblygu **fframweithiau gwerthuso** cyn dechrau cyflwyno'r cynlluniau. Rydyn ni'n argymhell ac yn annog sefydliadau i ofyn i fyfyrwyr gyfrannu at y prosesau gwerthuso.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am gynllunio mynediad a ffioedd, gan gynnwys y cyfarwyddyd blynyddol diweddaraf, ar gael ar [wefan CCAUC](#). Hefyd mae posib i chi anfon e-bost i cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk neu regulationadvice@hefcw.ac.uk.